# Fforwm Rhanbarthol TrC – Gogledd a Chanolbarth Cymru

# TfW Regional Forum – North and Mid Wales

# 11 Mai 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

# Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol y Gogledd a'r Canolbarth

Cynhaliwyd cyfarfod y fforwm ar 11 Mai 2021, 10:00 – 12:00

### Mynychwyr

## Aelodau o'r Fforwm

| | | |
|---|---|---|
| Alex Woodall | Swyddog Rheilffordd Strategol, Transport for Greater Manchester | |
| Andrew Mytton | Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus, Cyngor Sir Wrecsam | |
| Andrew Saunders | Rheolwr Strategaeth Mynediad Arwynebau, Maes Awyr Manceinion | |
| Ann Elias | Swyddog Trafnidiaeth Strategol, Partneriaeth Tyfu'r Canolbarth – Trafnidiaeth Strategol | |
| Bryn Jones | Pennaeth Ymchwil Cyfnewid Gwybodaeth, Swyddfa Arloesi ac Effaith | |
| Claire Owen | Rheolwr Aelodaeth a Marchnata, Twristiaeth y Canolbarth | |
| David Jones | Rheolwr Datblygu Rheilffyrdd, Rhanbarth Dinas Lerpwl | |
| Emma Thomas | Swyddog Datblygu Cymdeithas Cludiant Cymunedol y Gogledd | |
| Iwan Cadwaladr | Cyngor Sir Ynys Môn | |
| Jim Jones | Twristiaeth Gogledd Cymru a Mersey Dee Biz Council | |
| Lewis Brencher | Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau, Trafnidiaeth Cymru | |
| Melanie Lawton | Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol, Trafnidiaeth Cymru'r Gogledd | |
| Michelle Clarke | Cydgysylltydd Prosiectau'r Gogledd, Cymdeithas Cludiant Cymunedol | |
| Nick Smith | Rheolwr Twf Rhanbarthol, Avanti West Coast | |
| Peter Daniels | Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Ddinbych | |

## Siaradwyr

| | | |
|---|---|---|
| Arron Bevan-John | Rheolwr Rhanddeiliaid, Y Canolbarth a'r Gorllewin, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Emily Coughlin | Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Network Rail | 10:25-10:50 |
| Hinatea Fonteneau | Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Trafnidiaeth Cymru | 10:50-11:05 |
| Josh Hopkins | Rheolwr Gwydnwch Gweithredol, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Kate McIntyre | Rheolwr Ansawdd a Phrofiad Gwasanaethau, Trafnidiaeth Cymru | 11:40-11:55 |
| Matthew Breese | Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru | 11:20-11:40 |
| Arolygydd Richard Powell | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig | 10:25-10:50 |
| Tony Clayton | Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru | 11:05-11:20 |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Andrew Mytton | Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus, Cyngor Sir Wrecsam |
| Ceri Hansom | Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig, Cyngor Sir y Fflint |
| Ceri Taylor | Rheolwr Materion Cyhoeddus Trafnidiaeth Cymru |
| Chris Wilson | Rheolwr Polisïau a Strategaeth Trafnidiaeth, Cyngor Ceredigion |
| Claire Williams | Swyddog Datblygu Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian |
| David Beer | Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus |

| | |
|---|---|
| Jamie Sant | Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol, Rheilffordd Bidston Wrecsam |
| Dave Whall | Rheolwr Rhanddeiliaid, Stena Line |
| Dylan Gallanders | Adran Gymorth ac Ymgysylltu Gweithredol, Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| Gerard Rhodes | Gwasanaeth Trafnidiaeth Strategol, Cheshire West and Chester Council |
| Geraint Morgan | Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol, TrC y De |
| Hugh Evans | Pennaeth Rheilffyrdd Cymunedol, TrC |
| Iwan Cadwaladr | Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Prys-Jones | Rheolwr Rhaglenni, Bwrdd Economaidd y Gogledd |
| Karen Williams | Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir y Gogledd-orllewin |
| Mark Barton | Rheolwr Rhanddeiliaid, Irish Ferries |
| Michelle Roles | Rheolwr Rhanddeiliaid Cymru, Transport Focus |
| Mike Learmond | Uwch Reolwr Datblygu, Cymru, FSB |
| Owain Roberts | Rheolwr Rhanddeiliaid Rhanbarthol, Northern Rail |
| Paul Williamson | Cynghorydd Cyflogaeth Arbenigol JobSense<br>RNID |
| Yr Athro Paul Spencer | Pennaeth Coleg (Coleg Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianneg) Prifysgol Bangor |
| Sean Croshaw | Rheolwr Rheilffyrdd Strategol, Transport for Greater Manchester |
| Rhian Wyn Williams | Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Gwynedd |
| Robin Tudor | Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Maes Awyr Lerpwl |
| Steph Smith | Uwch Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus a Chymunedol, Cyngor Conwy |
| Tony Caine | Rheolwr Traffig a Theithio, Cyngor Sir Powys |
| Val Hawkins | Prif Weithredwr Twristiaeth y Canolbarth |
| Vincent Goodwin | Swyddog Teithio, Cyngor Sir Powys |

## Nodyn gan y Cadeirydd, Lowri Joyce

*“Mae’n wych cael croesawu aelodau hen a newydd i bumed fforwm rhanbarthol y Gogledd a’r Canolbarth. Hoffwn ddiolch i’n cyflwynwyr a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch cymunedol, ein cynllun gwella gorsafoedd, ein prosiect gwefru cerbydau trydan, ymgyrch farchnata ar gyfer adfer o COVID-19 a’r cynnig ar gyfer gwasanaeth dosbarth cyntaf rhwng y Gogledd a’r De. Fe wnaeth ein sesiwn Holi ac Ateb gyda James Price, ein Swyddog Prif Weithredol, ennyn trafodaeth ardderchog a diolch i’n haelodau am eu cyfraniadau yn yr ystafelloedd trafod”.*

### Agenda

**1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd Lowri Joyce aelodau’r fforwm i bumed cyfarfod Fforwm Rhanbarthol y Gogledd a’r Canolbarth. Cyflwynodd Lowri fformat y cyfarfod, gan gynnwys y defnydd o ystafelloedd trafod ynghyd ag adborth o’r arolwg blaenorol a’r ffordd rydym wedi addasu ein fforymau yn unol â’r adborth. Hysbysodd Lowri yr aelodau o’r negeseuon cyfredol ar gyfer Teithio’n fwy Diogel ac o reolau Llywodraeth Cymru sydd dal i fod ar waith ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â’r pandemig Covid-19.

**2. Sesiwn Holi ac Ateb gyda’r Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru**

Cynhaliodd James Price sesiwn holi ac ateb agored gydag aelodau’r fforwm.

Holodd Ann Elias, Swyddog Trafnidiaeth Strategol, Partneriaeth Tyfu’r Canolbarth-Trafnidiaeth Strategol, ynghylch strwythur sefydliadol ar gyfer ffrydiau gwaith penodol, a chytunwyd y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu ag aelodau’r fforwm. Bydd cynlluniau gweithredol busnes sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cael eu rhannu’n gyhoeddus cyn

hir. Bydd hyn yn cynnwys cynllun buddsoddi pum mlynedd hefyd ar gyfer trafnidiaeth ar hyd a lled Cymru a fydd yn cael ei rannu â'r cyhoedd ar ôl ei gwblhau.

Holodd Peter Daniels, Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch dyfodol Bws Fflecsi. Trafodwyd cost-effeithiolrwydd Bws Fflecsi o gymharu â boddhad cadarnhaol cwsmeriaid a'r buddion cymdeithasol. Trafodwyd y gwaith cyfredol â phartneriaid twristiaeth hefyd a'r angen i annog partneriaethau â darparwyr eraill er mwyn cynyddu manteision ar draws sefydliadau.

## 3. Cadw'n Cymunedau'n Ddiogel

Arweiniodd Josh Hopkins, Trafnidiaeth Cymru, Arolygydd Richard Powell, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Emily Coughlin, Network Rail, drafodaeth ar y gwaith sydd gan TrC ar y gweill i gadw'r rheilffordd a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn ddiogel i staff, cwsmeriaid a chymunedau. Fe wnaeth yr holl siaradwyr rannu gwybodaeth am eu gwaith partneriaeth er mwyn ymgysylltu â chymunedau.

Cymerodd cyfranogwyr y fforwm ran mewn sesiynau gweithdy er mwyn trafod themâu penodol:

***Trosedd - Gweithgarwch troseddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Pa droseddau sy'n bodoli ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Beth fyddech chi'n ei wneud os byddech chi'n gweld trosedd ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Ydych chi'n gwybod rhif ffôn testun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig?
- Beth ellid ei wneud (ar wahân i gysylltu â'r heddlu) i leihau troseddu ar y rhwydwaith trafnidiaeth?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:
Cynyddu gwybodaeth am fanylion cyswllt Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac annog pobl i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** ***Ymddygiad sy'n achosi braw neu ofid ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Pwy sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Beth yw'r problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal chi?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw grwpiau allweddol y dylem fod yn ymgysylltu â nhw?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:
Mynd i'r afael â'r hyn sy'n creu problemau gydag unigolion sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac y gallai diflastod oherwydd y cyfnod clo fod yn ffactor sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Mae digwyddiadau ar y rheilffordd** ***Yn cynnwys tresmasu, camddefnyddio croesfannau a gweithgarwch sy'n anniogel ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth ellir ei wneud er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau ar y rheilffordd?
- Beth ddylem fod yn ei wneud yn TrC er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau ar y rheilffordd?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:
Darparu sesiynau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc, cynnal a mynychu digwyddiadau cymunedol a darparu taflenni a phosteri gwybodaeth

## 4. Cynllun Gwella Gorsafoedd

Cyflwynodd Hinatea Fonteneau, Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Raglen Gwella Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru i wneud gwelliannau ac addasiadau i'r rhwydwaith o orsafoedd a reolir gan TrC ledled Cymru a'r Gororau. Holodd Bryn Jones, Prifysgol Bangor, ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer gwefru beiciau trydan, yn enwedig at ddefnydd hamdden. Atebodd Tony Clayton drwy ddweud nad yw gwefru beiciau trydan yn rhan o'r cylch gwaith cyfredol ar gyfer gwefru cerbydau trydan ond maen nhw'n rhan bwysig o'r cylch gwaith ar gyfer Teithio Llesol ac y byddant yn cael

eu hystyried. Gofynnodd Nick Smith, Avanti West Coast, am i'r cyflwyniad gael ei rannu er mwyn ei rannu â chydweithwyr.

### 5. Gorsafoedd Gwefru Cerbydau Trydan

Cyflwynodd Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru, brosiectau gwefru cerbydau trydan Cymru a'r Gororau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer yr holl rwydwaith ffyrdd yng Nghymru a'r gorsafoedd ar hyd a lled rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Yn dilyn cwestiwn gan Ann Elias, Swyddog Trafnidiaeth Strategol, Partneriaeth Tyfu'r Canolbarth–Trafnidiaeth Strategol, cadarnhaodd Tony y bydd yn ymchwilio i'r cyfle i awdurdodau lleol allu prynu pwyntiau gwefru ychwanegol gan y contractiwr.

### 6. Ymgyrch farchnata ar gyfer adfer ar ôl Covid -19

Cyflwynodd Matt Breese, Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru, fanylion yr ymgyrch farchnata ddiweddaraf i annog pobl i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae'r ymgyrch hon wedi'i llywio gan drafodaethau a gynhaliwyd mewn fforymau rhanddeiliaid blaenorol, a byddai safbwyntiau pellach gan fynychwyr am y cysyniad cyffredinol yn dderbyniol iawn. Nododd Claire Owen, Twristiaeth y Canolbarth, fod y negeseuon yn gryf a bod ganddynt lawer o asedau y byddent yn hapus i'w rhannu â TrC. Cadarnhaodd Matt y byddant yn gweithio mewn partneriaeth unwaith y mae'r cysyniad wedi'i ddatblygu ymhellach. Rhoddodd Lewis Brencher, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, fanylion yr ymgyrch gyfredol i gadw teithwyr yn ddiogel ac y byddai'r ymgyrch newydd hon yn ystyried cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl covid.

### 7. Paneli Cwsmeriaid Dosbarth Cyntaf

Cafwyd cyflwyniad gan Kate McIntyre, Rheolwr Ansawdd a Phrofiad Gwasanaethau, ar y profiad newydd i deithwyr dosbarth cyntaf ar drenau Mark 4 rhwng Caerdydd a'r Gogledd yn dilyn gweithdai ac ymgynghoriadau mewnol. Bydd y profiad dosbarth cyntaf yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ystod Mehefin 2022. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn cynnull panel cwsmeriaid i brofi'r cynnig dosbarth cyntaf dros y 12 – 18 mis nesaf. Trafododd Peter Daniels, Cyngor Sir Ddinbych, y ffordd y gallai teithiau dosbarth busnes adfer ar ôl covid. Mae TrC yn canolbwyntio ar brofiad dosbarth cyntaf yn hytrach na thargedu cymuned fusnes. Roedd Claire Owen, Twristiaeth y Canolbarth yn ategu bod targedu twristiaeth yn hytrach na dosbarth busnes yn fwy buddiol ac yn apelio i fwy o bobl. Dywedodd Ann Elias fod sêl bendith enwogion yn gyfle da i hyrwyddo'r gwasanaeth. Bydd TrC yn datblygu ymhellach gyfleoedd i hyrwyddo'r gwasanaeth.

### 8. Unrhyw Fater Arall
Dim

**Camau Gweithredu**

Cofnodwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a byddwn yn mynd i'r afael â nhw cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bynnag y bo'n bosibl.

| Camau Gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| Rhannu siartiau sefydliadol ag aelodau'r fforwm gan amlinellu pwy sydd â chyfrifoldeb ym mhob ardal | Gwybodaeth i gael ei hanfon pan fydd ar gael |
| Cyflwyniadau i'w rhannu ag aelodau'r fforwm | Bydd cyflwyniadau wedi'u hatodi i'r marciwr dyddiadur |

## Uchafbwyntiau sgwrs ddigidol y Fforwm

Dyma uchafbwyntiau’r sgwrs yn adnodd sgwrsio’r Fforwm:

Credaf fod yr ymgyrch farchnata hon yn seiliedig ar gysyniad gwych a fydd yn taro deuddeg gyda llawer o bobl. Credaf y bydd yn apelio at bobl o bob oedran a gwneud iddyn nhw deimlo’n “rhan” o rywbeth ac yn awyddus i gymryd rhan. Rydw i’n edrych ymlaen at weld sut y bydd yn datblygu.

Byddwn i’n ategu’r diddordeb hwnnw mewn datblygiadau gorsafoedd o safbwynt TfGM (yn enwedig Caer)

## Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Cynhelir Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol nesaf y Gogledd a’r Canolbarth ym mis Medi 2021